

Amodau a Thelerau Safonol ar gyfer Pawb a'i Le Cymru Grantiau Refeniw

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cynnig grant i'r mudiad a enwir yn y llythyr cynnig grant (y cyfeirir ato fel "chi", "eich", "rydych" a "byddwch" yn yr Amodau a Thelerau hyn) ar gyfer y prosiect a ddisgrifir yn eich cais neu y cytunir arno fel arall gyda ni ("y prosiect").

1. Trwy dderbyn y grant hwn, rydych yn cytuno i:
 - 1.1. ddal y grant ar ymddiriedaeth dros y Gronfa Loteri Fawr (y cyfeirir ati fel "ni", "ein", "rydym" a "byddwn" yn yr Amodau a Thelerau hyn) a'i ddefnyddio dim ond ar gyfer eich prosiect chi, neu fel y cytunir fel arall gyda ni;
 - 1.2. defnyddio'r grant ar gyfer gwariant dim ond ar ôl dyddiad y llythyr cynnig grant a dim ond yn ystod cyfnod y prosiect fel a gytunwyd gyda ni;
 - 1.3. dechrau eich prosiect gyda ni a thynnu rhandaliad cyntaf y grant i lawr o fewn chwe mis ar ôl llofnodi'r llythyr cynnig grant, oni bai y cytunir fel arall gyda ni;
 - 1.4. darparu'n ddi-oed unrhyw wybodaeth ac adroddiadau y mae eu hangen arnom ni ynglŷn â'r prosiect a'i effaith, yn ystod ac ar ôl diwedd y prosiect;
 - 1.5. cael caniatâd gennym cyn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'ch prosiect neu i statws, perchnogaeth neu gyfansoddiad eich mudiad;
 - 1.6. hysbysu ni'n brydlon am unrhyw faterion sylweddol neu oedi gyda'ch prosiect neu unrhyw hawl gyfreithiol ac/neu ymchwiliad a wnaed neu a fygythiwyd yn eich erbyn chi, unrhyw aelod o'ch corff llywodraethu, neu unrhyw fudiad, cyflogai neu wirfoddolwr sy'n gweithio ar y prosiect;
 - 1.7. gweithredu'n gyfreithiol wrth gyflawni'ch prosiect, yn unol ag arfer gorau ac arweiniad gan eich rheoleiddiwyd, a dilyn unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gennym ni mewn perthynas â'r rhaglen neu ddefnyddio'r grant;
 - 1.8. hyrwyddo cyfle cyfartal yn unol â'r gyfraith ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gennym ni;
 - 1.9. os bydd y grant yn ariannu cyflog swydd newydd, hysbysebu'r swydd yn allanol oni bai y cytunir fel arall gyda ni, a gweithredu proses recriwtio deg ac agored yn unol â'r gyfraith ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gennym ni;
 - 1.10. cydnabod arian y Loteri Genedlaethol gan ddefnyddio'r brand loteri cyffredin yn unol â'r canllawiau brand perthnasol;
 - 1.11. cadw'r grant mewn cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu Deyrnas Unedig sy'n bodloni ein gofynion fel a ddisgrifir yn y canllawiau ac yn mynnu bod o leiaf dau unigolyn nad oes unrhyw gyswllt rhyngddynt yn cymeradwyo pob trafodiad a didyniad;
 - 1.12. trin y grant fel cronfeydd cyfyngedig yn eich cyfrifon blynyddol gan ddefnyddio'r cyfeirnod "Cronfa Loteri Fawr" ac enw'r rhaglen ac, os mynnwn, agor cyfrif banc dynodedig ar wahân ar gyfer pob grant gennym ni at ddiben derbyn a gweinyddu'r grant hwnnw'n unig;
 - 1.13. dychwelyd unrhyw ran o'r grant na chaiff ei defnyddio ar gyfer eich prosiect neu nad yw wedi'i wario erbyn diwedd y prosiect, fel a gytunir gyda ni;
 - 1.14. pan fydd eich prosiect yn cynnwys cydweithio â phlant, pobl ifainc neu oedolion bregus, mabwysiadu a gweithredu polisi diogelu ysgrifenedig priodol, dod o hyd i ganiatâd ysgrifenedig gan ofalwyr neu warcheidwaid cyfreithiol a chyflawni

gwiriadau cefndir ar gyfer yr holl gyflogeion, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr neu gontractwyr yn unol â gofynion cyfreithiol neu ein canllawiau;

- 1.15. cydymffurfio â deddfau diogelu data a chael caniatâd gan eich buddiolwyr er mwyn i ni a chi dderbyn a phrosesu eu gwybodaeth bersonol a chysylltu â nhw;
- 1.16. cadw cofnodion cywir a chynhwysfawr o'ch prosiect yn ystod y prosiect ac am saith mlynedd wedyn ac, ar gais, darparu copiâu i ni o'r cofnodion hynny a thystiolaeth o wario'r grant megis derbynebaw a chyfriflenni banc gwreiddiol;
- 1.17. caniatáu mynediad rhesymol ar ein cyfer ni a/neu'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i adeiladau a systemau perthnasol i archwilio cofnodion prosiect a grant;
- 1.18. Cronfa Loteri Fawr gyhoeddi a rhannu gwybodaeth amdanoch chi a'ch prosiect gan gynnwys eich enw a delweddau o weithgareddau prosiect. Trwy hyn rydych yn rhoi trwydded rhydd rhag breindaliadau i ni atgynhyrchu a chyhoeddi unrhyw wybodaeth brosiect a roddwch i ni. Byddwch yn ein hysbysu pan fyddwch yn darparu'r wybodaeth os nad oes gennych ganiatâd iddi gael ei defnyddio at y dibenion hyn; ac
- 1.19. os yw eich prosiect i'w gyflwyno yng Nghymru, galluogi pobl i gymryd rhan yn Gymraeg a Saesneg, gan drin y ddwy iaith yn gyfartal. Mae'n rhaid i siaradwyr Cymraeg fedru cyrchu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg ac mae'n rhaid creu pob deunydd yn ddwyieithog.

2. Os defnyddir unrhyw ran o'r grant i brynu nwyddau neu wasanaethau, neu i brynu neu ddatblygu eiddo deallusol, byddwch yn:

- 2.1. cyflawni tendr cystadleuol os bydd y nwyddau a/neu wasanaethau'n costio mwy na £10,000 ac yn cydymffurfio â rheolau caffael y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd os ydynt yn berthnasol i chi;
- 2.2. defnyddio asedau a brynwyd neu a wellwyd gan ddefnyddio'r grant dim ond ar gyfer y prosiect a'u cadw'n ddiogel, mewn cyflwr da ac wedi eu hyswiro'n ddigonol yn ystod y cyfnod monitro asedau a nodwyd yn y canllawiau perthnasol;
- 2.3. diogelu unrhyw hawliau eiddo deallusol a brynwyd neu a ddatblygwyd gan ddefnyddio'r grant a pheidio ag ecsbloetio'r hawliau hyn yn fasnachol heb gael caniatâd ysgrifenedig gennym ni ymlaen llaw; a
- 2.4. chael caniatâd gennym ymlaen llaw cyn cael gwared ar unrhyw asedau a brynwyd neu a wellwyd gan ddefnyddio'r grant ac os bydd angen, talu cyfran o'r elw o'r cyfryw warediad i ni.

3. Rydych yn cydnabod bod gennym yr hawl i atal neu derfynu'r grant a/neu fynnu eich bod yn ad-dalu'r grant cyfan neu ran ohono a/neu osod amodau ychwanegol arnoch yn y sefyllfaoedd a ganlyn. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni os yw unrhyw un o'r sefyllfaoedd hyn wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd.

- 3.1. Rydych yn defnyddio'r grant mewn unrhyw ffordd heblaw am yr hyn a gymeradwyir gennym ni neu'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau a thelerau hyn.
- 3.2. Rydych yn methu â gwneud cynnydd da gyda'ch prosiect neu rydych yn annhebygol, yn ein barn ni, o gwblhau'r prosiect neu gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt gyda ni.
- 3.3. Mae arian cyfatebol sydd gennych chi ar gyfer y prosiect yn cael ei ddileu neu os byddwch yn derbyn cyllid dyblyg ar gyfer yr un costau prosiect a ariennir gan y grant.

- 3.4. Rydych yn darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, naill ai ar adeg y cais neu ar ôl dyfarnu'r grant, gweithredu'n anonest, neu os ydych chi neu unrhyw un arall sy'n ymwneud â'r prosiect yn destun ymchwiliad gennym ni, gan gorff rheoleiddio neu'r heddlu.
- 3.5. Rydych yn gwneud neu'n methu â gwneud unrhyw beth sy'n difenwi ni neu'r Loteri Genedlaethol neu yr ydym ni'n ystyried ei fod yn peryglu arian cyhoeddus am unrhyw reswm.
- 3.6. Rydych yn mynd, neu os yn ein barn ni rydych yn debygol o fynd, i ddwylo'r gweinyddwyr, datodiad, derbynyddiad, diddymiad neu, yn Yr Alban, os caiff ystâd eich mudiad ei secwestru;

4. Rydych yn cydnabod y canlynol:

- 4.1. nid yw'r grant yn ystyriaeth ar gyfer unrhyw gyflenwad trethadwy at ddibenion TAW;
- 4.2. mae'r grant at eich defnydd chi'n unig ac ni allwch chi rannu neu drosglwyddo'r grant (neu unrhyw ran ohono) i unrhyw un arall oni bai ein bod wedi cymeradwyo hyn. Os byddwn yn cytuno i chi rannu neu drosglwyddo'r grant, chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod eich partneriaid a derbynyddion eraill y grant yn derbyn yr Amodau a Thelerau hyn ac yn cydymffurfio â nhw. Os byddant yn methu â gwneud hyn, mae'n bosib y byddwn yn gweithredu ein hawliau yng nghymal 3, gan gynnwys dod â'r grant i ben a gofyn am ad-daliad. Mae'n rhaid i chi ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rwymol gydag unrhyw un rydych yn rhannu'r grant â nhw a darparu copi i ni ar gais;
- 4.3. os defnyddir unrhyw ran o'r grant i brynu neu adeiladu, adnewyddu, estyn neu newid adeiladau neu dir mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'n hamodau grant cyfalaf ychwanegol ni;
- 4.4. ni fyddwn yn cynyddu'r grant os byddwch yn gwario mwy na'r gyllideb gytunedig ar eich prosiect a gallwn warantu'r grant dim ond cyhyd â bydd y Loteri Genedlaethol yn parhau i weithredu a'n bod ni'n derbyn digon o gyllid ganddo;
- 4.5. mae'r grant yn dod o arian cyhoeddus ac ni fyddwch yn defnyddio'r grant mewn ffordd sy'n gyfystyr â chymorth gwladwriaethol anghyfreithlon. Os pennir bod y grant yn gymorth gwladwriaethol anghyfreithlon, byddwch yn ad-dalu'r swm cyfan ar unwaith. Os oes gennych chi bryderon am gymorth gwladwriaethol, byddwch yn ceisio cymorth cyfreithiol annibynnol; ac
- 4.6. ni fyddwn yn atebol am unrhyw gostau neu ddeilliannau a geir gennych chi neu drydydd partïon sy'n deillio naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r prosiect, neu o fethu â thalu neu ddiddymu'r grant, ac eithrio i'r graddau a ganiateir gan y gyfraith; a
- 4.7. bydd yr Amodau a Thelerau hyn yn parhau mewn grym am (i) flwyddyn ar ôl talu rhandaliad olaf y grant; neu (ii) hyd nes y caiff y prosiect ei gwblhau; neu (iii) am faint bynnag o amser yr erys arian y grant heb ei wario; p'un bynnag yw'r hwyraf. Bydd cymalau 1.3, 1.8, 1.12, 1.15, 1.16, 1.17, 2.2, 2.3, 2.4, 4.5 a 4.6 yn parhau ar ôl i'r Amodau a Thelerau ddod i ben.